Pobl ifanc | Mehefin 2024

# Beth yw'r llwybrau i ofal ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru?



**Awdur**
Charlotte Edney

Nuffield Family Justice Observatory

Papur briffio

**Mae'r papur briffio hwn yn amlygu rhai o ganfyddiadau allweddol astudiaeth ddiweddar gan y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol – cydweithrediad rhwng Prifysgol Caerhirfryn a Phrifysgol Abertawe – sy'n ymchwilio i'r llwybrau i ofal ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru.**


**Awdur**

Charlotte Edney, Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield



**Cyfeiriad argymelledig**

Edney C. (2024). *Beth yw'r llwybrau i ofal ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru?*. Dogfen friffio. Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.






# Cynnwys


**01** Cyflwyniad
**03** Data a methodoleg
**04** Pwyntiau allweddol
**12** Myfyrdodau
**14** Cyfeiriadau


**Ymawdiad**


Mae Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield wedi ariannu'r prosiect hwn, ond safbwyntiau'r awduron yw'r rhai a fynegir ac nid, o reidrwydd, Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield na'r Sefydliad.



Hawlfraint © Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield 2024


100 St John Street, Llundain EC1M 4EH Rhif ffôn: 020 7631 0566
Rhan o Sefydliad Nuffield: Elusen gofrestredig 206601

nuffieldfjo.org.uk | @NuffieldFJO
www.nuffieldfoundation.org | @NuffieldFound

# Cyflwyniad

Yn 2022/23, roedd plant 10-17 oed yn cynrychioli 64% o'r holl blant sy'n derbyn gofal yn Lloegr a 58% yng Nghymru (yr Adran Addysg 2024; StatsCymru 2024). Mae eu profiadau a'u hanghenion yn aml yn wahanol iawn i'w cymheiriaid iau. Maen nhw mewn perygl uwch o niweidiau y tu allan i'r teulu fel camfanteisio troseddol a rhywiol ac mae ganddynt anghenion cymhleth, gan gynnwys anawsterau iechyd meddwl, yn aml o ganlyniad i drawma blaenorol.

Defnyddiodd ymchwil flaenorol ddata gan y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Cafcass a Cafcass Cymru) i gofnodi cynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n destun achosion gofal adran 31 yng Nghymru a Lloegr dros amser (Roe et al. 2021). Ond nid yw hyn yn dangos y darlun cyfan. Ni fydd pob plentyn sy'n cael ei dderbyn i ofal yn ymddangos yn nata Cafcass o ganlyniad i'r defnydd o drefniadau gwirfoddol adran 20/76 y tu allan i'r llys. Weithiau, fe allai trefniadau gwirfoddol olygu nad oes angen achos llys o gwbl neu fe allent ragflaenu achos. Prin yw'r dadansoddiadau meintiol a gynhaliwyd hyd yma ynglŷn â threfniadau gwirfoddol gan ddefnyddio data gweinyddol ar lefel y boblogaeth. Mae un o'r prif ffynonellau tystiolaeth wedi'i seilio ar ddyfarniadau cyhoeddedig a gafodd effaith bwysig ar y ffordd y defnyddiwyd adran 20/76. Mae hyn yn amlwg yn nifer y bobl ifanc sy'n dod gerbron y llys teulu.

Mae adroddiad newydd gan y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol – cydweithrediad rhwng Prifysgol Caerhirfryn a Phrifysgol Abertawe – yn ymchwilio i dueddiadau mewn pobl ifanc sy'n cael eu derbyn i ofal a'u llwybrau mynediad i ofal yng Nghymru (North, L. et al. 2024).1 Dyma'r astudiaeth gyntaf i archwilio llwybrau pobl ifanc sy'n mynd trwy'r system gan ddefnyddio data Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) Cymru, sydd ar gael trwy Fanc Data (Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw) SAIL.2

Mae'r adroddiad yn dangos, er bod cyfradd gyffredinol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi bod yn gymharol sefydlog dros amser, mae cyfradd y bobl ifanc sy'n cael eu derbyn i ofal o dan adran 76 wedi gostwng dros amser ac mae'n cyd-fynd â chynnydd mewn defnyddio gorchmynion gofal interim. Mae mwy o bobl ifanc yn ymddangos yn y llysoedd teulu o ganlyniad i hyn. Trafodwn y canfyddiadau a'r goblygiadau mwyaf perthnasol.

1 Gweler: https://popdatasci.swan.ac.uk/wp-content/uploads/2024/05/Adols_care_pathways.pdf
2 Gweler: https://saildatabank.com/; https://web.www.healthdatagateway.org/dataset/cfdafacb-48f0-4ad8-9f20-193a5eec2da4

# Derbyn i ofal: y cyd-destun cyfreithiol yng Nghymru

Mae dau brif lwybr i'r system ofal yng Nghymru: achosion gofal a threfniadau gwirfoddol. Gallai pobl ifanc dderbyn gofal trwy lwybrau cyfreithiol eraill hefyd, gan gynnwys gorchmynion amddiffyn brys, amddiffyniad gan yr heddlu, y system cyfiawnder ieuenctid neu seibiannau tymor byr.

### Achosion gofal

Pan amlygir bod plentyn wedi dioddef – neu mewn perygl o ddioddef – niwed sylweddol a briodolir i riant neu ofalwr, caiff yr awdurdod lleol wneud cais i gychwyn achos gofal o dan adran 31 Deddf Plant 1989. Ar ddechrau achos, gall y llys ystyried p'un ai gwneud gorchymyn gofal interim sy'n gosod y plentyn dan ofal neu oruchwyliaeth yr awdurdod lleol am gyfnod dros dro tra bod yr achos yn parhau. Mae gorchymyn gofal yn lleoli plentyn yng ngofal awdurdod lleol dynodedig, ac mae cyfrifoldeb rhiant yn cael ei rannu rhwng y rhieni a'r awdurdod lleol. Gallai plant sy'n destun gorchymyn gofal gael eu lleoli gyda gofalwr maeth, gyda theulu ehangach, mewn gofal preswyl a chyda gorchymyn lleoli, gyda darpar rieni mabwysiadol, neu aros yng nghartref eu rhieni (neu ddychwelyd iddo).

### Llety gwirfoddol

Gall plant gael eu derbyn i'r system ofal yn wirfoddol hefyd, pan fydd y rhai hynny sydd â chyfrifoldeb rhiant yn cytuno y gall y plentyn gael ei letya gan yr awdurdod lleol o dan a.76 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu llety i blant nad oes ganddynt neb i ofalu amdanynt, neu blant y mae eu gofalwr yn cael ei atal rhag darparu llety neu ofal addas iddynt. Mae'r ddyletswydd yn dibynnu ar y ffaith bod y rhai hynny sydd â chyfrifoldeb rhiant yn cytuno â'r trefniant ac nid yw'n cynnwys y llysoedd. Er mwyn cyfleu cyfanswm y boblogaeth plant sy'n cael eu derbyn i ofal, mae angen i ymchwil gynnwys y rhai hynny a symudwyd o ofal eu rhieni o dan adran 31 Deddf Plant 1989, ond hefyd y rhai hynny sy'n cael eu derbyn i ofal gyda chytundeb rhiant o dan adran 76 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Y ddeddfwriaeth gyfatebol yn Lloegr yw adran 20 Deddf Plant 1989.

# Data a methodoleg

Defnyddiodd yr astudiaeth ddata gweinyddol unigol, dienw ar lefel y boblogaeth, sef y cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal (PDG) a gesglir fel mater o drefn gan awdurdodau lleol ac a gynhelir gan Lywodraeth Cymru. Fe'i cyrchwyd trwy Fanc Data SAIL. Roedd y data'n gysylltiedig â set ddata 2019 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Ford et al. 2009; Lyons et al. 2009; Jones et al. 2014; Jones et al. 2019; Allnatt et al. 2022).

Trwy gyrchu'r data, gallai'r ymchwilwyr archwilio, ar gyfer pob plentyn, ddyddiadau dechrau a diwedd pob cyfnod o ofal, ar ba sail gyfreithiol y'i derbyniwyd i ofal, y categori angen (fel y'i cofnodwyd gan y gweithiwr cymdeithasol), y math o leoliad, a'r rheswm pam y dechreuodd ac y gorffennodd y cyfnod o ofal.

Mae'r data hefyd yn cynnwys gwybodaeth am nodweddion demograffig pobl ifanc sy'n cael eu derbyn i ofal, gan gynnwys eu hoedran, rhywedd, ethnigrwydd, a lleoliad (a gyflëir gan yr ardal gynnyrch ehangach haen is yr oeddent yn byw ynddi pan gawsant eu derbyn i ofal). Roedd y data hefyd yn cynnwys nodyn ynglŷn â ph'un a oedd y person ifanc yn blentyn ar ei ben ei hun sy'n ceisio lloches.

Roedd y boblogaeth a astudiwyd yn cynnwys yr holl blant 10-17 oed a dderbyniwyd i ofal am y tro cyntaf rhwng 1 Ebrill 2007 a 31 Mawrth 2021 – sef cyfanswm o 8,739 o bobl.

Roedd dau linyn i'r ymchwil. Roedd y cyntaf yn ymwneud ag ymchwilio i dueddiadau yn nifer y bobl ifanc sy'n cael eu derbyn i ofal dros amser. O fewn hyn,


archwiliwyd sut roedd tueddiadau'n amrywio yn ôl rhanbarth, statws cyfreithiol wrth gael eu derbyn i ofal, ardal barnwr teulu dynodedig, ac awdurdod lleol. Roedd yr ail linyn yn archwilio llwybrau pobl ifanc ac yn cymharu canlyniadau yn seiliedig ar y llwybr i ofal a ph'un a gymerwyd unrhyw gamau cyfreithiol dilynol. Roedd canlyniadau'n cynnwys y math o leoliadau, oedran wrth adael gofal, a sefydlogrwydd lleoliadau. Amlygodd yr ymchwil wahaniaethau rhwng carfanau plant 'hŷn' (15-17 oed) ac 'iau' (10-14 oed) pan oedd niferoedd yn caniatáu.

# Pwyntiau allweddol

## Mae cyfradd y bobl ifanc (10-17 oed) a dderbynnir i ofal wedi aros yn sefydlog dros amser – ond mae amrywiadau yn ôl oedran a lleoliad daearyddol

Er mwyn hwyluso cymharu rhwng blynyddoedd, mae nifer y bobl ifanc a dderbynnir i ofal wedi cael ei graddio yn ôl newidiadau i'r boblogaeth dros amser i roi cyfradd 'mynychder'. Mae cyfradd y bobl ifanc a dderbynnir i ofal am y tro cyntaf wedi aros yn gymharol sefydlog dros amser yng Nghymru. Ond mae'r ffigur cyffredinol hwn yn cuddio gwahaniaethau rhwng grwpiau oedran iau a hŷn. Diffinnir y grŵp hŷn fel plant rhwng 15 a 17 oed, tra bod y grŵp iau rhwng 10 a 14 oed. Mae Ffigur 1 yn dangos y bu cynnydd yng nghyfradd y plant hŷn a dderbynnir i ofal dros amser, o 15 fesul 10,000 o'r boblogaeth yn 2007/8 i bron 25 fesul 10,000 o'r boblogaeth yn 2020/21. Mae cyfradd y plant rhwng 10 1 14 oed a dderbynnir i ofal am y tro cyntaf wedi aros yn gymharol sefydlog. Yn 2010/11, cyfran y bobl ifanc 15-17 oed a dderbyniwyd i ofal am y tro cyntaf oedd 34% gan godi i 45% o'r holl bobl ifanc erbyn 2020/21.

**Ffigur 1: Cyfraddau mynychder pobl ifanc 15-17 oed a dderbynnir i ofal**





Ffynhonnell: North et al. 2024

Mae'r darlun cenedlaethol hefyd yn cuddio amrywiad daearyddol rhwng ardaloedd barnwr teulu dynodedig ac awdurdodau lleol. Caerdydd a De-ddwyrain Cymru yw'r ardal barnwr teulu dynodedig â'r gyfradd uchaf o bobl ifanc a dderbynnir i ofal am y tro cyntaf. Mae Ffigur 2 yn dangos bod hyn fel petai'n cael ei sbarduno gan awdurdod lleol Caerdydd, sy'n allanolyn yn 2014 a 2020 – mae'r gyfradd pobl ifanc a dderbynnir i ofal yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd. Nid oedd yn bosibl i'r ymchwilwyr archwilio'r rhesymau wrth wraidd yr amrywiad hwn gan ddefnyddio'r data.

At ei gilydd, mae'r ymchwil yn dangos bod 6% o'r bobl ifanc a dderbyniwyd i ofal yn blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches. Rydym yn gwybod, yn gyffredinol, bod y plant hyn yn garfan unigryw â nodweddion penodol, a'u bod yn fwy tebygol o fod dros 16 oed ac yn wrywaidd. Mae hyn yn dal dŵr yn yr astudiaeth; roedd 12% o'r grŵp hŷn ac 1% yn unig o'r grŵp iau yn blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches. Maen nhw'n cael eu derbyn i ofal o dan drefniant gwirfoddol adran 76 yn unig – felly fe allai'r niferoedd mawr hyn, ynghyd â bod yn hŷn, effeithio ar gymharu rhwng grwpiau hŷn ac iau yn ogystal â chymharu rhwng llwybrau derbyn i ofal.

**Ffigur 2: Cyfraddau mynychder pobl ifanc 10-17 oed a dderbynnir i ofal, yn ôl awdurdod lleol (2020)**




Ffynhonnell: North et al. 2024


Mae'r ymchwil yn dangos bod amrywiaeth ethnig pobl ifanc a dderbynnir i ofal yn debyg i amrywiaeth ethnig poblogaeth Cymru. Roedd pobl ifanc a dderbyniwyd i ofal yn fwyaf tebygol o fod yn Wyn (84%) o gymharu â chefndiroedd ethnig eraill. Mae pobl ifanc Gwyn sy'n derbyn gofal yn cael eu tangynrychioli ychydig o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol yng Nghymru (90%).

## Roedd ychydig dros ddwy ran o dair o bobl ifanc wedi cael eu derbyn i ofal am y tro cyntaf o dan drefniant gwirfoddol adran 76

Roedd tua dwy ran o dair (68%) o bobl ifanc wedi cael eu derbyn i ofal am y tro cyntaf o dan drefniant gwirfoddol adran 76. Roedd defnydd o orchmynion

gofal interim yn llai cyffredin – derbyniwyd 12.5% o bobl ifanc i ofal trwy'r llwybr hwn. Derbyniwyd tua 9% o bobl ifanc trwy seibiant tymor byr, 7% ar sail amddiffyn plant (gorchymyn amddiffyn brys neu orchymyn amddiffyn yr heddlu), a 3% trwy statws cyfreithiol cyfiawnder ieuenctid (gweler Ffigur 3).


**Ffigur 3: Llwybrau y derbyniwyd pobl ifanc 10-17 oed i ofal am y tro cyntaf trwyddynt, 2007/08 i 2020/21**




Ffynhonnell: North et al. 2024

Mae Ffigur 4 yn dangos sut mae'r llwybrau derbyn i ofal wedi newid dros amser. Cyrhaeddodd cyfradd y bobl ifanc a dderbyniwyd i ofal o dan drefniant gwirfoddol adran 76 frig yn 2011/12, sef 17 fesul 10,000 o'r boblogaeth, a bu'n gostwng yn raddol yn ystod y degawd i 12 fesul 10,000 o'r boblogaeth yn 2021/22. I'r gwrthwyneb, mae'r defnydd o orchmynion gofal interim wedi bod yn cynyddu ers 2014/15. Credir bod hyn yn gysylltiedig â sawl dyfarniad proffil uchel a oedd yn feirniadol o ddefnyddio adran 76 gan awdurdodau lleol (adran 20 yn Lloegr) (y Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus 2021).

**Ffigur 4: Cyfraddau mynychder pobl ifanc 10-17 oed a dderbynnir i ofal, yn ôl statws cyfreithiol**




Ffyhonnell: North et al. 2024

Mae'r duedd hon yn wahanol yn ôl oedran. Mae defnydd awdurdodau lleol o drefniadau gwirfoddol wedi bod yn fwy sefydlog ymhlith plant 15-17 oed, gan gynyddu'n raddol dros amser. Yn y grŵp iau, bu gostyngiad graddol o ran defnyddio trefniadau gwirfoddol a chynnydd mewn defnyddio gorchmynion gofal interim.

Roedd defnydd o drefniadau gwirfoddol yn fwy amrywiol ar draws awdurdodau lleol na defnydd o orchmynion gofal interim. Roedd Caerdydd a'r De-ddwyrain yn allanolynnau o ran defnyddio trefniadau gwirfoddol, gan eu bod yn eu defnyddio'n amlach na rhanbarthau eraill.

# Roedd ychydig dros un rhan o bump o bobl ifanc a dderbyniwyd i ofal o dan drefniadau gwirfoddol adran 76 wedi bod yn destun camau cyfreithiol gorfodol wedi hynny

Roedd ychydig dros un rhan o bump o bobl ifanc (22%) wedi bod yn destun camau gorfodol (h.y. wedi cael naill ai gorchymyn gofal interim, gorchymyn gofal llawn neu orchymyn lleoli) ar ôl iddynt gael eu derbyn i ofal o dan drefniant gwirfoddol. Os caiff pobl ifanc ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches eu dileu o'r cyfrifiad, gan nad ydynt yn dod yn destun camau gorfodol mewn unrhyw amgylchiadau, mae'r ffigur hwn yn codi i 24%.


Roedd y grŵp iau (10-14 oed) yn cynrychioli'r mwyafrif helaeth o bobl ifanc a drosglwyddodd i orchymyn cyfreithiol (89%). Gallai'r canfyddiad hwn hefyd fod oherwydd bod y grŵp hŷn (15-17 oed) yn cynnwys pobl ifanc ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches a fydd yn aros ar drefniant gwirfoddol tan iddynt gyrraedd 18

oed. Ond mae hefyd yn dangos bod arnom angen mwy o dystiolaeth ynglŷn â sut mae cael eu derbyn i ofal o dan drefniadau adran 76 ac aros arnynt tan iddynt fod yn ddigon hen i adael gofal yn effeithio ar bobl ifanc.

Y cyfnod canolrifol rhwng cael eu derbyn i ofal o dan drefniant gwirfoddol a chamau gorfodol oedd 133 o ddiwrnodau, ond roedd hyn yn amrywio'n sylweddol. O ran y grŵp iau (10-15 oed), y canolrif oedd 143 o ddiwrnodau, o gymharu â'r grŵp hŷn (15-17 oed), lle'r oedd y canolrif yn 81 o ddiwrnodau. Fe allai hyn ymwneud â'r pwysau amser wrth i blant hŷn 'fynd yn rhy hen i dderbyn gofal' (h.y. cyrraedd 18 oed), neu fe allai adlewyrchu amgylchiadau mwy brys y mae angen i'r llys ymyrryd i fynd i'r afael â nhw.

Canfu'r ymchwilwyr amrywiad rhwng awdurdodau lleol o ran camau gorfodol a'r amser rhwng derbyn i drefniant gwirfoddol adran 76 a chymryd y camau gorfodol hynny. Yn Sir Gaerfyrddin, aeth 10% o bobl ifanc a dderbyniwyd i drefniant gwirfoddol ymlaen i gael eu diogelu ymhellach trwy gamau gorfodol, o gymharu â 35% o bobl ifanc ym Mlaenau Gwent (gweler Ffigur 5). Ni ellir archwilio'r rhesymau wrth wraidd hyn yn y data gweinyddol, ond fe allent ymwneud â chapasiti'r llys, gwahanol arferion awdurdodau lleol, neu arferion y llys. Nid oedd yn ymddangos bod unrhyw gydberthynas rhwng y cyfnod i drosglwyddo a chanran yr achosion a drosglwyddodd.

**Ffigur 5: Pobl ifanc 10-17 oed a dderbyniwyd i ofal trwy drefniadau gwirfoddol a ddaeth yn destun camau gorfodol**




Ffynhonnell: North et al. 2024


# Roedd traean o'r bobl ifanc a dderbyniwyd i ofal o dan orchymyn gofal interim wedi cael eu lleoli gyda'u rhieni

Roedd lleoliadau pobl ifanc yn wahanol yn dibynnu ar sut roeddent wedi cael eu derbyn i ofal (gweler Ffigur 6). Defnyddiwyd mwy o leoliadau maeth gyda gofalwyr maeth ar gyfer pobl ifanc a dderbyniwyd i ofal o dan drefniant gwirfoddol. Lleolwyd ychydig dros ddwy ran o dair o bobl ifanc a dderbyniwyd i ofal o dan drefniant gwirfoddol gyda gofalwyr maeth (68%), lleolwyd 10% mewn gofal maeth gyda ffrindiau neu deulu, a lleolwyd 10% mewn cartref plant.

O ran pobl ifanc a dderbyniwyd i ofal o dan orchymyn gofal interim, lleolwyd traean ohonynt gyda'u rhieni, bron traean mewn gofal maeth gyda ffrindiau a theulu ac oddeutu traean mewn gofal maeth gyda gofalwyr maeth. Mae hyn yn dangos bod gorchmynion gofal yn cael eu defnyddio gartref.

Roedd pobl ifanc a gadwyd ar sail amddiffyn plant yn cael eu lleoli mewn gofal maeth gyda gofalwr maeth yn hytrach na theulu a ffrindiau yn ddieithriad bron – fe allai hyn adlewyrchu pa mor gyflym y lleolir y bobl ifanc hyn. Mae amrywiaeth o ffactorau cymhleth a allai fod yn berthnasol.

**Ffigur 6: Mathau o leoliadau ar gyfer pobl ifanc 10-17 oed wrth gael eu derbyn i ofal, yn ôl statws cyfreithiol[3]**




Ffynhonnell: North et al. 2024

Archwiliwyd sefydlogrwydd lleoliadau. Amlygodd yr ymchwilwyr fod 41% o'r bobl ifanc a dderbyniwyd i ofal wedi cael un lleoliad yn unig. Fodd bynnag, roedd dros hanner y bobl ifanc (60%) wedi cael 2 leoliad neu fwy. Yn nodweddiadol, cafodd y grŵp hŷn (15-17 oed) 1 lleoliad (48%) tra bod y grŵp iau (10-14 oed) yn fwy tebygol o gael 3 lleoliad neu fwy (45%). Roedd hyn yn debyg ni waeth am y llwybr derbyn i ofal. Yn naturiol, po hynaf yw'r bobl ifanc, y lleiaf yw'r tebygrwydd o gael mwy nag un lleoliad o ystyried eu hoedran wrth gael eu derbyn i ofal.

3 Mae'r awduron yn nodi "O ganlyniad i niferoedd bach a rhesymau datgelu ystadegol, mae statws cyfreithiol ar adeg derbyn wedi cael ei guddio mewn rhai achosion ac felly mae'n bosibl na fydd y canrannau'n dod i 100%. Dylid nodi na all unigolion a dderbynnir i ofal o dan drefniadau gwirfoddol gael eu lleoli gyda'u rhieni. Mae hyn yn debygol o fod yn wall yn y data, ond rydym wedi'u cadw er mwyn cyflawnder."

## Roedd 6 o bob 10 o bobl ifanc wedi gadael gofal cyn eu pen-blwydd yn 18 oed

Amlygodd yr ymchwil blant a adawodd ofal. Roedd ychydig yn llai na thraean (29%) o bobl ifanc wedi gadael gofal oherwydd eu hoedran (oherwydd eu bod yn rhy hen i dderbyn gofal). Roedd y 61% o bobl ifanc a oedd yn weddill wedi gadael gofal cyn eu pen-blwydd yn 18 oed.

At ei gilydd, roedd 43% o'r bobl ifanc a adawodd ofal yn perthyn i'r grŵp 'wedi dychwelyd adref i fyw gyda'u rhieni, perthnasau, neu rywun arall â chyfrifoldeb rhiant'. Roedd y grŵp ail fwyaf yn cynnwys 23% o bobl ifanc a adawodd ofal i fynd i drefniadau byw'n annibynnol. Yn yr is-sampl o bobl ifanc a adawodd ofal ar ôl iddynt gyrraedd 18 oed, aeth tua chwarter i fyw'n annibynnol ac roedd llai na 10% wedi dychwelyd i fyw gyda'u rhieni.

O ran un rhan o bump o bobl ifanc, cofnodwyd bod 'cyfnod o dderbyn gofal wedi dod i ben am unrhyw reswm arall', felly nid oes modd gwybod beth wnaethant wrth adael gofal. Byddai gwaith ychwanegol i archwilio nodweddion pobl ifanc a gofnodwyd yn y categori hwn yn ddefnyddiol.

Roedd rhai gwahaniaethau yn dibynnu ar y llwybr derbyn cyfreithiol. Nid yw'n syndod bod cyfrannau uwch o bobl ifanc a dderbyniwyd o dan drefniant gwirfoddol adran 76 wedi dychwelyd adref i'w rhieni, perthnasau neu rywun arall â chyfrifoldeb rhiant. O ran pobl ifanc a dderbyniwyd i ofal ar sail amddiffyn plant, dychwelodd 77% adref i fyw gyda'u rhieni.

# Myfyrdodau

Mae'r adroddiad yn dangos y bu cynnydd yng nghyfradd y bobl ifanc 15-17 oed sy'n cael eu derbyn i ofal am y tro cyntaf. Mae cyfradd y bobl ifanc 10-14 oed sy'n cael eu derbyn i ofal am y tro cyntaf wedi aros yn sefydlog, ond bu newidiadau i'r llwybr i ofal ymhlith y grŵp hwn, gyda mwy o ddefnydd o orchmynion gofal interim a llai o ddefnydd o drefniadau gwirfoddol adran 76.

Mae amrywiad rhanbarthol ar draws llawer o'r canlyniadau a astudiwyd, yng nghyfraddau cyffredinol y bobl ifanc 10-17 oed sy'n derbyn gofal, y gwahanol lwybrau derbyn a defnydd o'r llys yn dilyn trefniant gwirfoddol adran 76. Gellid gwneud mwy o waith i ymchwilio i hyn a deall pam mae'r gwahaniaethau hyn yn parhau.

Mae adran 76 yn cael ei defnyddio ychydig yn fwy ar gyfer pobl ifanc o gymharu â babanod (68% ar gyfer pobl ifanc o gymharu â 54% ar gyfer babanod) (Cowley et al. 2023). Mae hyn yn golygu bod y llys yn gweld cyfran lai o blant 10-17 oed sy'n dechrau derbyn gofal, mewn gwirionedd. Yn wir, mae hyd yn oed canran y bobl ifanc a dderbynnir i ofal o dan drefniant gwirfoddol adran 76 ac sy'n mynd i'r llys yn ddiweddarach yn llai na hanner cyfanswm carfan y bobl ifanc sy'n derbyn gofal.

Gosodir dyletswyddau ar awdurdodau lleol pan fyddant yn defnyddio adran 76. Mae'r rhain yn cynnwys ystyried dymuniadau a theimladau plant a'u teuluoedd, bod yn gyfrifol am ddod o hyd i lety i'r plentyn, hyrwyddo cysylltiad rhwng plant a'u teuluoedd, datblygu cynllun gofal a'i adolygu, a darparu'r lefel briodol o gymorth i blant sy'n gadael gofal. Mae'n hollbwysig bod gennym ymchwil i'n helpu i ddeall i ba raddau y mae hyn yn digwydd yn ymarferol, a beth yw'r rhwystrau rhag darparu'r cymorth iawn.

Yn anffodus, nid oedd dadansoddiad ar wahân o blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches. Yn ogystal, fe allai cynnwys y grŵp hwn yn y sampl gyfan arwain at oblygiadau i'r canfyddiadau. Y rheswm am hyn yw oherwydd eu bod yn grŵp unigryw. Maen nhw bob amser yn cael eu derbyn i ofal o dan drefniant gwirfoddol adran 76, maen nhw'n cynrychioli 12% o bobl ifanc hŷn, a byddant yn gadael gofal pan fyddant yn cyrraedd 18 oed yn unig. Er gwaethaf y cyfyngiad hwn, nid yw nifer y plant ar eu pen

eu hunain sy'n ceisio lloches fel cyfran o'r bobl ifanc yn cael ei hadrodd yn rheolaidd yng Nghymru (ar StatsCymru) ac mae'n cynrychioli nifer (a chyfran) ryfeddol o fawr o bobl hŷn. Pan fyddant yn cyrraedd 18 oed, fe allai rhai plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches aros gyda theuluoedd maeth tra gallai eraill fynd i lety â chymorth. Ond, oherwydd eu statws, ychydig ohonynt fydd yn dychwelyd i fyw gyda'u rhieni (neu a gofnodir felly). Credwn fod angen i'r grŵp hwn gael ei ddadansoddi ymhellach a bod angen ymagwedd bolisi arbennig ar gyfer eu hanghenion.

Byddai ymchwil ychwanegol sy'n archwilio nodweddion a llwybrau pobl ifanc sy'n gadael gofal cyn iddynt gyrraedd 18 oed yn cael ei chroesawu. Byddai ffordd well o gofnodi'r lleoliad pan fyddant yn gadael gofal wrth gasglu data o gymorth yn hyn o beth. Yn ogystal, nid yw'n glir p'un a yw plentyn yn dychwelyd i fyw gyda'i rieni o ganlyniad i newidiadau i amgylchiadau'r teulu, neu a yw'r rhiant wedi tynnu ei gydsyniad yn ôl ar gyfer trefniant gwirfoddol adran 76. Mae'r gwahaniaeth hwn yn bwysig ac yn fwlch yn y dystiolaeth wrth ddeall llwybrau pobl ifanc sy'n gadael gofal.

# Cyfeiriadau

**Allnatt,** G., Lee, A., Scourfield, J., Elliott, M., Broadhurst, K. a Griffiths, L. (2022). Data resource profile: children looked after administrative records in Wales. *International Journal of Population Data Science, 7*(1), 1752. https://doi.org/10.23889/ijpds.v7i1.1752

**Cowley** L., North L., Broadhurst K., Doebler S., Alrouh B., Cusworth L., Abouelenin M., Griffiths L. (2023). *Mewn Gofal o'u Geni: Deall llwybrau gofal a sefydlogrwydd lleoliadau ar gyfer babanod yng Nghymru:* Y bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol. https://www.cfj-lancaster.org.uk/files/documents/Infant_care_pathways_PopDataSci_01112023.pdf

**Yr** Adran Addysg. (2024). *Ystadegau: plant sy'n derbyn gofal*. Adalwyd ar 21 Mai 2024 o https://www.gov.uk/government/collections/statistics-looked-after-children

**Ford,** D. V, Jones, K. H., Verplancke, J. P., Lyons, R. A., John, G., Brown, G., Brooks, C. J., Thompson, S., Bodger, O., Couch, T. a Leake, K. (2009). The SAIL Databank: Building a national architecture for e-health research and evaluation. *BMC Health Services Research*, 9, 157. https://doi.org/10.1186/1472-6963-9-157

**Lyons,** R. A., Jones, K.H., John, G., Brooks, C. J., Verplancke, P., Ford, D. V., Brown, G. a Leake, K. (2009). The SAIL Databank: linking multiple health and social care datasets. *BMC Medical Informatics and Decision Making*, 9:3. https://doi.org/10.1186/1472-6947-9-3.

**North,** L., Bailey G., Cowley L., Broadhurst K., Doebler S., Alrouh B., Cusworth L., Abouelenin M., Hargreaves C., Griffiths L. (2024). *Deall llwybrau gofal a sefydlogrwydd lleoliadau ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru*. Abertawe/Caerhirfryn: Y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol: Gweler: https://popdatasci.swan.ac.uk/wp-content/uploads/2024/05/Adols_care_pathways.pdf

**Roe,** A., Alrouh, B., a Cusworth, L. (2021). *Plant hŷn a phobl ifanc mewn achosion gofal yng Nghymru a Lloegr. Llundain:* Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. https://www.nuffieldfjo.org.uk/wp-content/uploads/2021/10/older_children_and_young_people_in_care_proceedings_in_england_wales_report_1021..pdf

**Y** Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus (2021). *Argymhellion i gyflawni arfer gorau yn y systemau amddiffyn plant a chyfiawnder teuluol. Adroddiad Terfynol.* www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2021/03/March-2021-report-final_clickable.pdf

**StatsCymru** (2024). *Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol, rhyw ac oedran*. Adalwyd ar 21 Mai 2024 o https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/childrenlookedafterat31march-by-localauthority-gender-age

## Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield

Nod Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield yw cefnogi'r penderfyniadau gorau posibl i blant trwy wella'r defnydd o ddata a thystiolaeth ymchwil yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru a Lloegr. Gan ymdrin â chyfraith gyhoeddus a phreifat, mae Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield yn darparu gwaith dadansoddi ac ymchwil hygyrch i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y llysoedd teulu.

Sefydlwyd Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield gan Sefydliad Nuffield, sef ymddiriedolaeth elusennol annibynnol sy'n ceisio hybu lles cymdeithasol. Mae'r Sefydliad yn ariannu ymchwil sy'n llywio polisi cymdeithasol, a hynny'n bennaf ym meysydd addysg, lles, a chyfiawnder. Mae hefyd yn ariannu rhaglenni myfyrwyr er mwyn i bobl ifanc ddatblygu sgiliau a hyder mewn dulliau meintiol a gwyddonol. Sefydliad Nuffield yw sylfaenydd a chyd-ariannwr Sefydliad Ada Lovelace a Chyngor Biofoeseg Nuffield. Ariannodd Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield ddatblygiad y papur briffio hwn. Nid safbwyntiau Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield na Sefydliad Nuffield yw unrhyw safbwyntiau a fynegir, o reidrwydd.

## Y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol

Mae'r Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol yn gydweithrediad rhwng Prifysgol Caerhirfryn a Phrifysgol Abertawe, ac mae Cafcass a Cafcass Cymru yn rhanddeiliaid allweddol. Fe'i hariennir gan Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

## SAIL Databank

Mae'r data Plant sy'n Derbyn Gofal a ddefnyddir yn yr astudiaeth hon ar gael o'r Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) ym Mhrifysgol Abertawe, sy'n rhan o'r seilwaith ymchwil cofnodion e-iechyd cenedlaethol ar gyfer Cymru. Mae pob cynnig i ddefnyddio'r data hwn yn destun adolygiad a chymeradwyaeth gan Banel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth (IGRP) SAIL. Pan roddir mynediad, fe'i ceir trwy hafan ddiogel sy'n diogelu preifatrwydd a system mynediad o bell, y cyfeirir ati fel Porth SAIL.

Dylai unrhyw un sy'n dymuno cyrchu data ddilyn canllawiau'r broses ymgeisio sydd ar gael yn: www.saildatabank.com/application-process

Nuffield Family Justice Observatory

I gael rhagor o wybodaeth neu gymryd rhan, cysylltwch â ni: E-bost: contactfjo@nuffieldfoundation.org Rhif ffôn: +44 (0)20 7323 6242

Hawlfraint © Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield 2023
100 St John St, Llundain EC1M 4EH Rhif ffôn: 020 7631 0566
Rhan o Sefydliad Nuffield: Elusen gofrestredig 206601

nuffieldfjo.org.uk | @NuffieldFJO
www.nuffieldfoundation.org | @NuffieldFound